

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Chwefror 2019 yn Siambur y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

135. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU

Dechreuodd Caplan y Maer, Archddiacon Llanelwy, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

136. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones.

137. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Ionawr 2019 - Rhifau Cofnod 116-134

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Ionawr 2019 - Rhifau Cofnod 45-48

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Chwefror 2019 - Rhifau Cofnod 49-51

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a **R PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Chwefror 2019 - Rhifau Cofnod 91-103

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu yn amodol ar y newid uchod o ran presenoldeb.

138. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau a fynychwyd ganddi hi a'r Dirprwy Faer yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at 10fed Symposiwm Heddwch Cenedlaethol Blynyddol Merched Moslemaidd Ahmadiyya yn Llundain, Arddangosfa Therapi Creadigol MIND Dyffryn Clwyd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl a Chinio Blynyddol Criw Bad Achub y Rhyl yn 1891 yn y Rhyl.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

139. CYFLWYNIAD: PLEYDELLSMITHYMAN LIMITED A CHYNGOR SIR DDINBYCH – DIWEDDARIAD AR UWCHGYNLLUN CANOL TREF Y RHYL

Croesawodd y Maer Sarah Wheale-Smith (Cydymaith o PleydellSmithyman Ltd), Helen Buckle a Anna Couch (Dylunwyr Trefol o Planit-IE), Steve Parry (ION Developments) a Mike Horrocks (Rheolwr Rhaglen, Datblygu Economaidd a Busnes), Angela Loftus (Rheolwr Polisi Cynllunio), Jo Sutton (Swyddog Ymgysylltiad Cyhoeddus), David Mathews (Rheolwr Gwerthuso a Stadau) a Mike Jones (Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd) o Gyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i annerch yr aelodau.

Esboniodd Ms Buckle a Ms Couch eu bod wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y weledigaeth ar gyfer canol y dref a bod y penawdau yn awgrymu bod teimlad bod y traeth wedi ei anghofio; bod manwerthu'n dirywio a bod gwahaniaeth teimladwy rhwng dwyrain a gorllewin y Rhyl yr roedd angen delio ag o.

Y traeth oedd ased mwyaf y Rhyl ac roedd patrwm y strydoedd yn gyfan ond roedd angen cysylltu clir rhyngddynt / llwybrau i'r prif adeiladau a'r atyniadau.

Gallai Neuadd y Dref fod y ganolfan newydd gyda sgwâr yn y cefn a bod tacluso cyffredinol yn yr ardal honno a'r stryd fawr gyda chyflwyniad manau gwyrdd ac unedau preswyl uwchben yr unedau manwerthu yn cael eu hystyried.

Roedd Planit-IE wedi cwblhau cynlluniau tebyg yn Preston yn Sir Gaerhifryn a Poynton yn Sir Gaer.

Disgwylir y bydd dogfen weledigaeth a darlun yn barod erbyn diwedd mis Mawrth.

Cyflwynodd Mr Horrocks ei gydweithwyr ac esboniodd sut y byddai pob un o'r adrannau yng Nghyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd a chyda Planit-IE ac ION Developments.

Rhodddwyd yr ymatebion canlynol i ymholiadau a sylwadau'r aelodau:

- Y byddai'r stryd fawr yn cael ei hail-ddylunio yn yr hirdymor, gyda chyllidebu graddol i gwblhau'r gwaith mewn cyfnodau a byddai'n cynnwys arolwg o lif traffig i ail-lunio'r stryd fawr beth bynnag.
- Roedd prif strydoedd ledled y DU yn chwilio am hunaniaeth newydd at y dyfodol ac y byddai'r cynllun hwn yn gwella ansawdd yr amgylchedd a'r profiad.
- Bod cyflwyno traffig ddwyffordd ar Brighton Road wedi ei ystyried ond yn anffodus nid oedd yn gweithio.
- Y byddai rhannau diddorol adeiladau yn cael eu cadw i gynnig manau difyr i fusnesau.

- Na fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud ar ei ben ei hun.
- Roedd argyhoeddi pobl yn gyntaf (rhoi teimlad o falchder dinesig yng nghanol eu tref) yn allweddol i ddenu pobl o ymhellach i ffwrdd.
- Bod prynu mwy a mwy o adeiladau ar y stryd fawr yn bositif amlwg, ynghyd â gweithio mwy gyda'r Heddlu yn lleol ac asiantethau eraill.
- Roedd buddsoddiad Ardal Gwella Busnes y Rhyl (BID) yn faintais wirioneddol.
- Pe byddai CSDd a'r Cyngor Tref yn rhoi pwysau ariannol ar Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio ystadegau Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru (WIMD), mewn perthynas ag ailfywiogi prif strydoedd Cymru, gallai'r Rhyl chwarae rôl arweiniol.
- Bod gwaith modelu traffig wedi ei wneud i ganfod y gorau o ran amser teithio a wastraffir gyda gwell llwybrau a chynnwys allyriad a grëir gan dagfeydd a thraffig llonydd.
- Disgwylir adroddiad mesurol ar fodelu traffig unrhyw ddydd a gellir ei rannu gyda'r Cyngor Tref?
- Bod annog pobl i ymweld â'r Rhyl yn cael ei amharu gan gostau teithio uchel ar y trenau, a oedd yn rhywbeth arall gwerth ei ystyried.
- Teimlwyd y dylai tŵr y clod ffurfio rhan o galon newydd y dref. Efallai yn Sgwâr Neuadd y Farchnad? Roedd wedi ei symud o'r blaen a gellid gwneud hynny eto.
- Roedd llwybrau oddi ar y llwybr beicio yn cael eu hystyried.
- Roedd gwell arwyddion ym meysdd parcio'r dref ar y gweill.

Diolchodd y Maer i'r cynrychiolwyr am fynychu ac ar ran y Cyngor Tref dymunodd yn dda iddynt nhw ynglŷn â'r hyn a fyddai'n gasgliad cadarnhaol iawn o waith.

[Gadawodd y Cynghorydd B Jones y cyfarfod ar y pwynt hwn]

140. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – CHWEFROR 2019

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	En'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
685	Cyngor Sir Ddinbych	988.00	Cyfraniad at Ddigwyddiad Y Rhyl Wylt Medi 2018
686	Delwedd Ltd	685.08	Lletya a Chynnal a Chadw Gwefan 2018/19
687	Gunsmoke Communications	27.25	Baneri Cymru ar gyfer Digwyddiad Dydd Gwyl Dewi
688	Cyngor Sir Ddinbych	12,540.00	Contract Goleuadau 2018/19
689	Cyfrif Dawns Elusen y Maer (Llanelwy)	54.00	2 x docyn i Ddawns Elusen Maer Llanelwy
690	Y Cynghorydd Win-Mullen James	10.00	Ad-daliad am 2 docyn i ddigwyddiad Mind Clwyd 17 Chwefror 2019
	Cyfanswm taliadau	£14,304.33	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

141. GOHEBIAETH: ARDAL GWELLA BUSNES Y RHYL (BID)

Cyfeiriodd y Maer at ohebiaeth a dderbyniwyd (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar y broses BID.

PENDERFYNWYD *derbyn yr ohebiaeth.*

142. DYDDIAD CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR

Awgrymodd y Maer bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn union ar ôl cyfarfod y Cyngor sydd i'w gynnal ar 20fed Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD *cynnal Cyfarfod Anffurfiol y Cyngor ar 20fed Mawrth 2019 ar ôl cyfarfod y Cyngor.*

143. EITEM ER GWYBODAETH: YMWELIAD AG ANTIGUA

Esboniodd y Cynghorydd Mrs D. L. King y byddai, ar ei hymweliad nesaf ag Antigua, yn cyfarfod Prif Weinidog Antigua a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau iddi fynd ag anrheg iddo gan y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD *bod y Cynghorydd King yn mynd ag arwyddlun y dref i'r Prif Weinidog.*

144. EITEM ER GWYBODAETH: 'RHYL DDI-BLASTIG'

Rhoddodd y Cynghorydd K R Jones ddiweddariad byr ar gynnydd y fenter, gan ddweud eu bod yn parhau i weithio tuag at statws achrediad llawn ac wedi cofrestru gyda'r cynllun ail-lenwi ac y byddai'n annog bwyta'i lleol i gytuno llenwi poteli dŵr pobl yn rhad ac am ddim.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

145. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

146. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

147. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Maer at y cofnodion canlynol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a gyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau:

Pwyllgor CSG	-	12fed Tachwedd 2018	- Rhifau Cofnod 35-43
Pwyllgor SCG	-	10fed Rhagfyr 2018 -	Rhifau Cofnod 44-50

Mewn perthynas â chofnod rhif 54 (Arolwg o Gynllun Tref y Cyngor Tref) y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Ionawr, anogodd Clerc y Dref a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG yr aelodau i ddychwelyd eu papurau yn manylu eu dyheadau personol ar gyfer y dref, i'r pwyllgor eu hystyried.

PENDERFYNWYD *derbyn y cofnodion.*

148. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: